Eisteddfod CALAN MAI

Eisteddfod leol i bobl Aberystwyth a'r Cylch

Canolfan Morlan, Aberystwyth

Dydd Mercher, 2 Mai, 2018

i ddechrau am 4:30 o'r gloch

BEIRNIAID:

Cerdd: Delyth Morgan Phillips
Llefaru/Llên: Garry Owen
Celf: Gareth Owen

ARWEINYDDION:

Clive Williams, Gwenallt Llwyd Ifan, Deian Creunant a Berian Lewis

CYFEILYDD:

Lona Phillips

MYNEDIAD: £3 (Plant ysgol am ddim)

Y RHAGLEN

Ychydig o reolau syml er hwylustod i bawb:

Mae'r Eisteddfod hon yn **gyfyngedig i bobl sy'n byw, gweithio neu'n astudio** yn yr ardal (gan gynnwys myfyrwyr o'r cylch sy'n astudio oddi cartref). Mae lleol yn y cyswllt hwn yn golygu o Daliesin yn y Gogledd i Lanrhystud yn y De a Phonterwyd yn y Dwyrain. (Os oes rhai aelodau o gôr neu barti yn byw y tu allan i'r terfynau hyn medrant gystadlu os yw'r ymarferion yn digwydd o fewn y dalgylch).

Mae pob cystadleuaeth yn agored o ran y **dewis o ddarn** ac o ran yr **oed cystadlu oni nodir yn wahanol.** Disgwylir i bawb gystadlu trwy gyfrwng y Gymraeg (neu'n ddi-iaith lle bo hynny'n addas),ac ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn mwy nag un gystadleuaeth.

Y Cyfeilydd: Os am wasanaeth y cyfeilydd swyddogol rhaid cysylltu â Lona erbyn **25 Ebrill** ar 01974 261710 neu Glyndŵr, Abermagwr, Aberystwyth SY23 4AR neu lona.phillips@btinternet.com

Cofrestru i gystadlu ar gyfer cystadlaethau llwyfan: Er mwyn cystadlu rhaid cofrestru o flaen llaw, **erbyn 25 Ebrill,** un ai drwy hysbysu'r **Ysgrifennydd**: Velvor Raw Rees, Maesawelon, Waunfawr, Aberystwyth SY23 3BA, 07968979333 neu e-bostio aberystwyth@steddfota.org

Gwaith Cartref i gyd i law yr Ysgrifennydd erbyn **17 Ebrill** drwy'r post neu e-bost (cyfeiriad uchod).

Rhaid darparu copïau i'r beirniad a'r cyfeilydd.

Bydd gan y beirniad hawl i rannu neu atal gwobr (neu ran o wobr).

Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau.

****

CYSTADLAETHAU LLWYFAN

	1af	2il	3ydd
1. Unawd Bl.2 ac iau	£10	£7	£5
2. Llefaru Bl.2 ac iau	£10	£7	£5
3. Unawd Bl.3 a 4	£10	£7	£5
4. Llefaru Bl.3 a 4	£10	£7	£5
5. Unawd Bl.5 a 6	£10	£7	£5
6. Llefaru Bl.5 a 6	£10	£7	£5
7. Unawd Offerynnol - oed Cynradd	£10	£7	£5
8. "Sgen Ti Dalent?" *Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau* ***dan 18 oed*** *(Caniateir i bobl sy'n 18 oed eisoes ond sy'n dal yn yr ysgol gystadlu yn y categori hwn).* *Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu'r gynulleidfa, nad yw ar y rhaglen yn barod, am ddim hwy na 5 munud. Gall fod yn ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru a.y.y.b (Os ydych yn bwriadu dawnsio rhaid hysbysu'r Ysgrifennydd* ***erbyn 25 Ebrill****). Caniateir hyd at 3 munud ychwanegol i baratoi'r llwyfan os oes angen.*	£30	£20	£15
9. Cystadleuaeth symud cregyn pasta gyda "chopsticks"	£5		
10. Ensemble Offerynnol Agored (3-12 aelod)	£30	£20	£15
11. Cystadleuaeth Sgetsh - yn agored i unrhyw oedran. *Dim hwy na 5 munud.* *Caniateir hyd at 3 munud ychwanegol i baratoi'r a chlirio'r llwyfan os oes angen*	£30	£20	£15

12. Ensemble Lleisiol 10-26 oed (Rhwng 3 a 6 mewn nifer). *Hunanddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant. Geiriau Cymraeg. Perfformiad dim mwy na 4 munud.* *Cystadleuaeth dan nawdd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yw hon. Bydd enillwyr yr ensemble lleisiol yn medru cyfri' hon fel un o'r 2 eisteddfod leol y mae angen iddynt ennill ynddynt er mwyn cael yr hawl i gystadlu ar y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 2018, am wobrau o £150, £100 a £50. Ar ben hyn cynigir Ysgoloriaeth gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru (gwerth £1,000) i alluogi enillwyr i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio.*	£30	£20	£15
13. Unawd neu Unawd allan o Sioe Gerdd - oed Uwchradd	£20	£15	£10
14. Llefaru Unigol - oed Uwchradd	£20	£15	£10
15. Unawd Offerynnol - oed Uwchradd	£20	£15	£10
16. "Sgen Ti Dalent?" *Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau* ***dros 18 oed.*** *Gweler amodau cystadleuaeth rhif 8.*	£30	£20	£15
17. Unawd dros 18 oed. *Unrhyw ffurf gan gynnwys Emyn/Cân Gymreig/Unawd Sioe Gerdd*	£20	£15	£10
18. Cystadleuaeth Canu neu Lefaru i Ddysgwyr (oedolion) *I unigolion, parau neu grwpiau. Caniateir i fyny at 20% o'r grŵp fod yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.*	£20	£15	£10
19. Canu Emyn dros 50 oed *Uchafswm o 3 pennill yn unig*	£20	£15	£10
20. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru *Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol heb fod yn hwy nag 8 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro.* *Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2016 a Mai 2018 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.*	£100	£75	£50

CYSTADLAETHAU GWAITH CARTREF

Gofynnir i chi anfon eich gwaith cartref at yr Ysgrifennydd erbyn 17 Ebrill (Gweler y rheolau).
Ffugenwau mewn amlen ar wahân os gwelwch yn dda.

1. Darn o ryddiaith gan oedolyn (hyd at 3,000 gair). Testun - "Gorwel"	Tlws ac £20	£15	£10
2. Limrig i gynnwys y linell "Un nos wrth gerdded y traeth"	£5	£3	£2
3. Erthygl addas ar gyfer Papur Bro (hyd at 400 gair)	£15	£10	£5
4. Cystadleuaeth i ddysgwyr - ysgrifennu atgof byr o wyliau glan môr ar gerdyn post. *(Mae gofyn i ddysgwyr nodi eu lefel wrth gystadlu)*	£15	£10	£5
5. Brawddeg o'r gair "promenâd"	£5	£3	£2
6. Darn o Gelf, Arlunio neu Osodiad Blodau gan oedolyn ar y testun "Y Môr"	£20	£15	£10
7. Ffotograff - llun ar y testun "Y Môr"	£10	£7	£5
UWCHRADD			
1. Llên Uwchradd - darn o waith creadigol hyd at 1,000 o eiriau ar unrhyw destun	£10	£7	£5
2. Darn o Gelf neu Arlunio oed Uwchradd ar y testun "Y Môr"	£10	£7	£5
3. Ffotograff - llun ar y testun "Y Môr"	£10	£7	£5
CYNRADD			
1. Darn o Gelf neu Arlunio ar y testun "Y Môr"	£10	£7	£5
2. Neges i fynd mewn potel (hyd at 100 gair)	£10	£7	£5
3. Ffotograff - llun ar y testun "Y Môr"	£10	£7	£5

DIOLCHIADAU

Diolch i Gronfa Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am ei nawdd o £390.00 tuag at Eisteddfod 2018.

Diolch hefyd i'r canlynol am eu rhoddion i Eisteddfod 2017, ac am eu cymorth:

M.E Jones	£50.00
Cyngor Llanbadarn Fawr	£200.00
Cyngor Tref Aberystwyth	£100.00
T.L & E.A Jones	£100.00
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru	£50.00
Cyngor Sir Ceredigion	£200.00

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru am y gefnogaeth ymarferol

Morlan am gael defnyddio'r adeilad i gynnal ein heisteddfod

Gwneuthurwr y gadair fechan - Wyn Morgan

A diolch i bawb arall sydd wedi cefnogi'r eisteddfod mewn unrhyw fodd.